## ATODLEN 4

## Y TRAMGWYDD O GANIATÁU I GI FYND AR DIR Y MAE WEDI'I WAHARDD ODDI ARNO A FFURF Y GORCHYMYN

**3** Ym mhob dim arall, rhaid i Orchymyn Gwahardd Cŵn sy'n darparu ar gyfer y tramgwydd hwnnw fod yn y ffurf a roddir isod, neu mewn ffurf sy'n sylweddol gyfatebol.

*Ffurf y Gorchymyn*

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 (OS 2007/702 (W.59)

Gorchymyn Gwahardd Cŵn [X](**1**) [X](**2**)

Mae [X](**3**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

(**1**) Dynoder, yn benodol neu'n gyffredinol, y tir y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo.
(**2**) Mewnosoder blwyddyn gwneud y Gorchymyn.
(**3**) Mewnosoder enw'r awdurdod cyntaf neu'r awdurdod eilaidd sy'n gwneud y Gorchymyn.